GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 34: wythnos **06/09/2021**

## Cynnydd Wythnosol (31 Awst - 6 Medi)

**Rydym bellach wedi brechu 89% o boblogaeth oedolion y Bwrdd Iechyd gyda dosau cyntaf ac mae 85% o bobl dros 18 wedi'u brechu'n llawn â dau ddos.**

### Trydydd brechlyn Covid-19 i bobl sy'n fregus yn glinigol

Yn dilyn cyhoeddiad 1 Medi ac argymhellion gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), byddwn yn rhoi trydydd dos sylfaenol o'r brechlyn COVID-19 i unigolion 12 oed a hŷn sydd â gwrthimiwnedddifrifol, oherwydd cyflwr iechyd sylfaenol neu driniaeth feddygol.

Hoffem roi sicrwydd i'n trigolion y byddwn yn gweithio â'n timau meddygol mewn Gofal Sylfaenol ac Eilaidd i sicrhau ein bod yn adnabod y rheiny sy'n gymwys am drydydd dos sylfaenol, a chynnig apwyntiad iddynt dros yr wythnosau nesaf. Os ydych chi'n teimlo eich bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer trydydd dos sylfaenol fel yr amlinellir gan y JCVI, gofynnwn eich bod yn cysylltu â'n tîm brechu ar 0300 303 1373 cyn gynted â phosibl. Bydd ein tîm wrth law i gymryd yr holl fanylion perthnasol cyn cysylltu â'ch clinigwr i gadarnhau eich sefyllfa.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y cyhoeddiad a'r meini prawf penodol, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation-jcvi-advice-on-third-primary-dose-vaccination

Unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn neu mae 8 wythnoswedi pasio ers eich dos cyntaf, gallwch nawr alw heibiounrhyw un o'n clinigau brechu i gael eich brechlyn.

I ganfod ymhle a phryd mae ein clinigau arfaethedig, ewch i: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/not-vaccinated-yet/

**Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu apwyntiad.**

**Pobl ifanc sy'n troi'n 16 oed**

Gallwn gadarnhau wrth i boblifanc droi'n 16 oed, y byddwnyn cysylltu â nhw i'w gwahoddam frechlyn drwy lythyr.

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 06/09/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

# 862,564

**Cyfanswm y dos cyntaf 444,810**

**Cyfanswm yr ail ddos 417,754**

| Grŵp | Dos cyntaf | Ail ddos |
|---|---|---|
| Pobl 60 oed a'n hŷn | 96% | 95% |
| Grŵp 6 (Agored i Niwed) | 91% | 88% |
| Pobl 55-59 mlwydd oed | 93% | 91% |
| Pobl 50-54 mlwydd oed | 91% | 89% |
| Pobl 40-49 mlwydd oed | 87% | 84% |
| Pobl 30-39 mlwydd oed | 81% | 76% |
| Pobl 18-29 mlwydd oed | 80% | 71% |
| Pobl 16-17 mlwydd oed | 74% | --% |

## Cyhoeddiad diwygiedig gan y JCVI parthed: unigolion 12-15 oed

Yn dilyn y cyhoeddiad ddydd Gwener ac argymhellion gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ynghylch brechu plant rhwng 12 a 15 oed sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol, mae'r meini prawf wedi'u hymestyn ac maent bellach yn cynnwys; malaen haematolegol, clefyd y crymangelloedd, diabetes math 1, clefyd cynhenid y galon a chyflyrau iechyd eraill fel y disgrifir isod.

Hoffem roi sicrwydd i'n trigolion y byddwn yn cysylltu â phawb sy'n bodloni'r meini prawf estynedig, newydd ac sydd felly yn gymwys am frechlyn i gynnig apwyntiad dros yr wythnosau nesaf. Gofynnwn i chi beidio â chysylltu â ni i wneud cais am apwyntiad, ond gofynnwn i chi sicrhau bod eich manylion chi neu'ch plentyn yn gywir gyda Phractis eich Meddyg Teulu. Anelwn at hysbysu pob unigolyn o leiaf wythnos cyn ei apwyntiad ac anfonir llythyrau i'ch cyfeiriad cartref cofrestredig a gedwir gan eich Meddyg Teulu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:: https://www.gov.uk/government/publications/jcvi-statement-september-2021-covid-19-vaccination-of-children-aged-12-to-15-years/jcvi-statement-on-covid-19-vaccination-of-children-aged-12-to-15-years-3-september-2021

## Clinigau Brechlyn Covid-19 i Bobl Ifanc rhwng 12 - 15 oed mewn Risg Uwch

**Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi bod yn cynnig y Brechlyn Covid-19 i'r grwpiau isod o unigolion rhwng 12 - 15 oed, dros y rhai wythnosau diwethaf, drwy glinigau arbennig. Mae angen i rieni/gwarcheidwaid gysylltu â'r ganolfan drefnu os ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn ac nad ydynt wedi derbyn gwahoddiad eto.**

Unigolion 12 oed neu hŷn sydd mewn risg uwch o haint COVID-19 difrifol.
Mae hyn yn cynnwys:
• Y rheiny sydd â niwro-anabledd a/neu gyflyrau niwrogyhyrol sy'n cyfaddawdu'r system resbiradol. Mae hyn yn cynnwys cyflyrau (megis parlys yr ymennydd, awtistiaeth a nychdod cyhyrol) a all effeithio ar lyncu ac amddiffyn rhan uchaf y pibellau aer sy'n arwain at gymryd anadl, a lleihau'r gallu i besychu ac arwain at dueddiad cyffredinol uwch o gael heintiau resbiradol

• Plant ac oedolion ifanc sydd ag anabledd dysgu (AD), gan gynnwys;
- Unigolion sydd â syndrom Down
- Y rheiny sydd ar y gofrestr anabledd dysgu
- Y rheiny sydd ag anabledd dysgu dwys a lluosog neu AD difrifol

• Gwrthimiwnedd oherwydd clefyd neu driniaeth, gan gynnwys:
- Cleifion sy'n derbyn cemotherapi sy'n arwain at wrthimiwnedd, cleifion sy'n derbyn radiotherapi radical, y rheiny sy'n derbyn trawsblaniad organ solet, y rheiny sy'n derbyn trawsblaniad mêr esgyrn neu gelloedd stem, haint HIV ym mhob cam neu anhwylderau genetig sy'n effeithio ar y system imiwnedd, e.e. IRAK-4, NEMO, anhwylder cyflenwi, SCID
- Unigolion sy'n derbyn therapi biolegol gwrthimiwnaidd neu sy'n effeithio ar y system imiwnedd, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain, gwrth-TNF, alemtuzumab, ofatumumab, rituximab, cleifion sy'n derbyn atalyddion cinasau proteinau neu atalyddion PARP, ac unigolion sy'n cael eu trin â thriniaethau lleihau steroidau, megis cycloffosffamid a mycoffenolat mofetil
- Unigolion sy'n cael eu trin â steroidau systemig, neu'n debygol o gael eu trin â nhw, am fwy na mis ar ddos sy'n gyfwerth â phrednisolon o 20mg bob diwrnod (neu i blant sy'n pwyso llai na 20KG, dos o 1mg/kg neu fwy y diwrnod)
- Unrhyw un sydd â chefndir o falaen haematolegol, gan gynnwys lewcemia, lymffoma a myeloma a'r rheiny sydd â chlefydau awtoimiwnedd a all fod angen triniaeth gwrthimiwnaidd hirdymor.

Am ragor o wybodaeth, ac i wneud cais am Basport Brechlyn Covid GIG, ewch i:
https://llyw.cymru/manteisiwch-ar-bas-covid-y-gig-i-ddangos-eich-statws-brechu-er-mwyn-teithio
Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan:
https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary
Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i:
https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/